Nursing & Midwifery Council

Dr Dai Lloyd AC
Dai.Lloyd@cynulliad.cymru

21 Chwefror 2020

Annwyl Dr Lloyd

Diolch am eich llythyr ar 10 Chwefror 2020 ynghylch yr ymchwiliad i sepsis sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y Deyrnas Unedig a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Mae gennym gofrestr o'r 700,000 a mwy o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae gofal gwell a mwy diogel i bobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan gynorthwyo'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu'r safonau gofal uchaf. Rydyn ni'n sicrhau bod gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ofalu am bobl yn ddiogel, gydag uniondeb, arbenigedd, parch a thosturi, o'r eiliad maen nhw'n camu i'w swydd gyntaf a thrwy gydol eu gyrfaoedd.

Ein prif swyddogaeth mewn perthynas â'r maes dan sylw yn yr ymchwiliad hwn yw sicrhau bod pob nyrs a bydwraig yn cael eu haddysgu a'u hyfforddi i atal, cydnabod, cynorthwyo a chymryd rhan mewn rheoli gofal pobl pan amheuir neu y cadarnheir achos o sepsis, a sicrhau, yn unol â'u cwmpas ymarfer, bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn parhau i fod yn gyfoes.

Ni allwn wneud sylwadau ar faterion fel nifer yr achosion o sepsis, sut mae sepsis yn cyflwyno'i hun, na'r modd y canfyddir ac y rheolir sepsis mewn lleoliadau gofal, na pha offer sgrinio sy'n cael eu defnyddio, gan nad yw hyn yn dod o fewn ein cylch gwaith rheoleiddio. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i bob nyrs a bydwraig ymarfer yn unol â'r dystiolaeth orau sydd ar gael bob amser.

Yn benodol, hoffwn eich cyfeirio at ein safonau hyfedredd newydd ar gyfer bydwragedd a nyrsys, ac rwyf wedi tynnu sylw at rai o'r elfennau hyfedredd a'r sgiliau perthnasol er hwylustod.

**Bydwragedd y dyfodol**

Fe wnaethom gyhoeddi Safonau hyfedredd newydd ar gyfer bydwragedd ym mis Tachwedd 2019. Mae'r rhain yn nodi'r wybodaeth a'r sgiliau mae'n ofynnol i fydwragedd eu dangos wrth ymuno â'r gofrestr, a thrwy gydol eu gyrfaoedd.

Yn benodol, rhaid i bob bydwraig allu:

- dangos y gallu i rannu gwybodaeth am iechyd y cyhoedd, hybu iechyd a diogelu iechyd gyda menywod, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a darparu cymorth ar gyfer mynediad at adnoddau a gwasanaethau (Parth 3, 3.3)
- dangos amddiffyniad iechyd effeithiol drwy ddeall, a chymhwyso egwyddorion atal a rheoli heintiau, gwyliadwriaeth o afiechydon trosglwyddadwy, ac ymwrthedd a stiwardiaeth gwrthficrobaidd (Parth 3, 3.10)
- defnyddio ymagweddau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli cymhlethdodau ac anghenion gofal ychwanegol y fenyw, y ffetws a/neu'r baban newydd-anedig; gan gynnwys cymorth, atgyfeirio, gwaith tîm rhyngddisgyblaethol ac amlasiantaethol, uwchgyfeirio a gwaith dilynol, yn ôl yr angen (Parth 4, 4.8)
- ymateb i arwyddion haint a sepsis (Parth 6, 6.71.4)
- defnyddio sgiliau atal a rheoli heintiau, gan ddilyn polisïau a phrotocolau lleol a chenedlaethol (Parth 6, 6.28)
- cynnwys menywod, partneriaid a theuluoedd i ddeall a chymhwyso egwyddorion rheoli heintiau a stiwardiaeth gwrthficrobaidd (Parth 6, 6.29)
- darparu cyfathrebu effeithiol ac amserol gyda menywod sy'n profi cymhlethdodau ac sydd ag anghenion gofal ychwanegol, a allai fod o ganlyniad i sepsis (Parth 6, 6.2. 7)
- uwchgyfeirio pryderon mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant (gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant) y fenyw neu faban newydd-anedig (Parth 6, 6. 7).

**Nyrsys y dyfodol**

Fe wnaethom gyhoeddi safonau hyfedredd newydd ar gyfer nyrsys cofrestredig ym mis Mai 2018. Daeth y safonau hyn i rym ym mis Ionawr 2019, gan nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau y mae'n rhaid i nyrsys cofrestredig eu dangos wrth ofalu am bobl o bob oed, ac ar draws pob lleoliad gofal. Maen nhw'n adlewyrchu'r hyn y gall y cyhoedd ddisgwyl i nyrsys ei wybod, a'r hyn y gallan nhw ei wneud er mwyn darparu gofal nyrsio diogel, tosturiol ac effeithiol.

Yn benodol, rhaid i bob nyrs allu:

- cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau a strategaethau gyda chydweithwyr a phobl ar bob cam o fywyd, a chydag amrywiaeth o heriau iechyd meddwl, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol (Llwyfan 1, 1 .11)
- dangos yr wybodaeth a'r gallu i ymateb yn rhagweithiol ac yn brydlon i arwyddion o ddirywiad neu drallod mewn iechyd meddwl, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol, a defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau clinigol cadarn (Llwyfan 4, 4.11)
- nodi a chychwyn ymyriadau priodol i gynorthwyo pobl sy'n dioddef o orbryder, dryswch, anghysur neu boen (Llwyfan 4, 4.8)
- nodi ac ymateb i arwyddion o ddirywiad a sepsis (Atodiad B, 2.13)
- defnyddio ymagweddau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth i atal a rheoli haint (Atodiad B, 9).

Yn ogystal, rhaid i holl unigolion cofrestredig y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gadw at ofynion y Cod, ein safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol.

O dan y Cod, rhaid i bob nyrs a bydwraig fod yn ymwybodol o unrhyw botensial am niwed, a lleihau'r potensial hwnnw cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys:

- sicrhau bod anghenion corfforol, cymdeithasol a seicolegol pobl yn cael eu hasesu ac ymateb iddyn nhw bob amser (adran 3)
- cymryd camau i leihau'r potensial am niwed (cyn belled ag y bo modd), ac effeithiau niwed os yw'n digwydd (adran 19.1)
- cadw at, a hyrwyddo, arfer a argymhellir mewn perthynas â rheoli ac atal heintiau (adran 19.3), a chymryd yr holl ragofalon personol rhesymol sy'n angenrheidiol i osgoi peryglon iechyd posibl (adran 19.4)
- codi, ac os oes angen, uwchgyfeirio unrhyw bryder a allai fod ganddyn nhw am iechyd neu ddiogelwch cleifion, neu lefel y gofal mae pobl yn ei gael, gan gynnwys risg o haint neu haint gwirioneddol (adran 16.1).

Gall sicrhau bod yr hyfedredd a'r gofynion hyn wedi eu hymgorffori yn arfer pob nyrs a bydwraig gyfrannu at atal sepsis, ac wrth gydnabod, cynorthwyo a gofalu yn gynnar am bobl â sepsis ym mhob lleoliad iechyd a gofal.

Gobeithiwn y bydd y sylwadau hyn yn gyfraniad defnyddiol ar ran y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth at waith eich ymchwiliad. Edrychaf ymlaen at ddarllen canlyniadau eich ymchwiliad.

Yn gywir,

Andrea Sutcliffe CBE
Prif Weithredwr a Chofrestrydd